CIWB

**Tasg 1**

# Guto Nyth Brân

Dyma ychydig o wybodaeth am Guto Nyth Brân.

| | |
|---|---|
| Enw iawn | Griffith Morgan |
| Geni | 1700 |
| Marw | 1737 |
| Byw | Ar fferm Nyth Brân, Porth, De Cymru |
| Gwaith | Gweithio ar y fferm |

Llenwch y  bylchau yn y darn isod. Rhaid i chi ysgrifennu yn yr amser gorffennol (*past tense)*.
Ydych chi'n cofio sut i ysgrifennu yn yr amser gorffennol, e.e.

| | | |
|---|---|---|
| clywed | clywodd | he / she heard |
| bwyta | bwytodd | he / she ate |
| yfed | yfodd | he / she drank |
| eistedd | eisteddodd | he / she sat |
| rhedeg | rhedodd | he / she ran |
| ennill | enillodd | he / she won |
| dal | daliodd | he / she caught |

## Bobl bach!

Roedd Guto yn cerdded ac yn rhedeg milltiroedd bob dydd.
Un diwrnod, roedd e'n helpu ei dad ar y fferm. (gweld) e ysgyfarnog.
(rhedeg) e ar ôl yr ysgyfarnog a (dal) e'r anifail.
Roedd e'n gallu dal adar yn hedfan hefyd.
Mae un stori'n dweud, "Roedd mam Guto'n gwneud te yn y tŷ. Rhedodd Guto o'r fferm i Bontypridd – 7 milltir i ffwrdd – ac yn ôl cyn i'r tegell ferwi.
Siân oedd enw ei gariad e. Roedd hi'n hyfforddi Guto ac yn trefnu'r rasys.
Ras gyntaf Guto: cwrs 4 milltir o gwmpas Hirwaun yn erbyn dyn o'r enw Sais.
(ennill) Guto £400.00.
(rhedeg) e fwy o rasys ond roedd e'n ennill bob amser ac roedd llai o bobl eisiau rasio yn erbyn Guto. Felly, (stopio) e rasio.
Yna, roedd rhedwr ardderchog arall o'r enw Prince. Roedd e'n ennill pob ras nawr.
(perswadio) Siân Guto i redeg yn erbyn Prince.
Roedd y ras yn dechrau yng Nghasnewydd ac yn gorffen ym Medwas – 12 milltir.
(ennill) Guto mewn 53 munud ond roedd Siân yn hapus iawn a (rhoi) hi slap ar ei gefn i ddweud, "Da iawn." Bu farw Guto.
Heddiw, mae bedd Guto yn eglwys Sant Gwynno, Llanwynno, ger Aberpennar.

| Geirfa | |
|---|---|
| milltiroedd | miles |
| ysgyfarnog | hare |
| cyn i'r tegell ferwi | before the kettle boiled |
| hyfforddi | to train |
| bob amser | always |
| llai (o) | fewer |
| yn erbyn | against |
| ei gefn | his back |
| bu farw | died |